

<b>Ymyriad</b>	<b>Cymunedau Cryf a Gwydn</b>		<b>Gwyrdd</b>	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			<b>Melyn</b>	Cynnydd dan y targed ond yn bosibl ei gyrraedd	
<b>Arwain</b>	Nicola Prygodzicz / UwchAr. Ian Roberts	<b>Cyfnod Adrodd</b>	Chw. 1 2019-20	<b>Coch</b>	Cynnydd ymhell islaw'r targed

<b>Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau</b>		
<p>Bwrdd CCG wedi cytuno i ffocysu ar ddull seiliedig ar le yn y tymor byr yn nwyrain Casnewydd. Rydym yn gweithio gyda'r gymuned leol yn Ringland i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol gyda'r bwriad o wella lles ac ansawdd bywyd. Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn ddeufisol a chynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid y daeth llawer iddo ym mis Ebrill. Y nod oedd rhannu gwybodaeth am y cynllun cyflawni. Mae cynnydd yn digwydd o ran datblygu cynllun cyflawni wedi ei alinio â rhaglen y Rhwydweithiau Lles Integredig.</p>		
<p>Mae'r Project Cyd-ymelwa i gynyddu cyfalaf cymdeithasol a gwydnwch cymunedol yn erbyn troseddu difrifol wedi ei drefnu yn Ringland wedi ei gyflawni a gwerthusiad ar y gweill. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad ymgysylltu cymunedol y "caffi cysylltu" a chynllun cyllidebu cyfranogol i ariannu projectau cymunedol. Cafwyd adborth cadarnhaol ar y ddau ac mae rhanddeiliaid wedi canmol y broses yn gyffredinol.</p>		
<p>Campws Cymuned Ringland – yn cynnwys 3 edefyn: canolfan iechyd a lles, Hyb Cymunedol a rhaglen adfywio Cartrefi Dinas Casnewydd. Disgwylir i'r Hyb agor yn yr hydref yn unol â'r hyn a gynlluniwyd.</p>		
<p>Rhaglen wirfoddoli – mae cronfa cyllido cyfranogol ar gael i ariannu projectau cymunedol a rhoi hwb i wirfoddoli. Hyfforddiant ar gyfer unigolion i ddatblygu eu gallu a chefnogi capasiti sector gwirfoddoli Ringland.</p>		
<p>Profiadau Plentyndod Negyddol - BGC i ystyried cynnal gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid i ddatblygu dull strategol ac integredig i'r agenda PPNau. Cyflwyno Rhaglen Gweithredu Cynnar Gyda'n Gilydd – Hyfforddiant PPNau ar gyfer pob Swyddog Heddlu a chyflogeion allweddol y gwasanaethau cyhoeddus, wedi ei alinio gyda hyfforddiant gan Hyb Cymorth y PPNau mewn ysgolion.</p>		
<b>Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd</b>	<b>Statws (U/C/I)</b>	<b>Camau lliniaru/cymorth sydd eu hangen</b>
Mae'r dull o ganolbwyntio ar ardal yn ffordd newydd o weithio a bydd angen newid diwylliannol a sefydliadol.	Isel	Trosolwg BGC ac arweiniad y Bwrdd Ymyriadau yn dod o wahanol sefydliadau partner h.y. Iechyd a'r Heddlu.

<b>Mesurau Perfformiad Allweddol</b>	<b>Targed</b>	<b>Gwirioneddol</b>	<b>RAG</b>
% o bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol (dydd/nos)	I'w gadarnhau		
% sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.	I'w gadarnhau		
% o bobl sy'n fodlon gyda'u hardal fel lle i fyw.	I'w gadarnhau		
% o bobl sy'n gwirfoddoli.	I'w gadarnhau		
% o bobl sy'n unig.	I'w gadarnhau		
Mesurau cyfalaf cymdeithasol sy'n cael eu datblygu ar gyfer Ringland			
<b>Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol</b>			
Datblygu cynllun cyflawni ar gyfer yr ymyriad			
Datblygu cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar le ar gyfer yr hybiau cymdogaeth			
Datblygu mesurau a thargedau perfformiad			
Cynnal ail raglen Cyllido Cyfranogol mewn lleoliad ysgol. (Ysgol Gynradd Ringland neu Millbrook)			
Cynnal digwyddiad gweithredu'n y gymuned yn Ringland/Alway			
Parhau i weithredu'r rhaglen Campws Cymunedol			